

PROFIAD MYFYRIWR RHWYDWAITH 75



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Partneriaeth
Cydwasaethau
Shared Services
Partnership

“Dechreuodd fy nhaith gyda Gwasanaethau Ystadau Arbenigol (SES) Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru (PCGC) ym mis Medi 2018 fel myfyriwr rhwydwaith 75. Mae Rhwydwaith 75 yn gynllun sy’n pontio’r bwlch rhwng profiad gwaith ac addysg drwy radd 5 mlynedd, rhan amser. Rwyf bellach yn fy mhumed flwyddyn sef y flwyddyn olaf. Dros y pedair blynedd diwethaf rwyf wedi bod yn astudio Peirianeg Drydanol ac Electronig ar gyfer fy ngradd wrth ochr cael profiad gwaith gwerthfawr yn SES PCGC.

Mae’r profiad a gefais wrth weithio ochr yn ochr â’m cydweithwyr yn SES PCGC wedi fy helpu i ddatblygu fy ngwaith yn y brifysgol a fy mharatoi ar gyfer fy ngyrfa yn y diwydiant peirianeg. Er bod graddau da yn ddymunol gan gyflogwyr y dyfodol, mae profiad hefyd yn angenrheidiol. Mae Rhwydwaith 75 yn hyrwyddo ac yn annog yr egwyddor hon.

Yn ystod fy amser yn SES PCGC, rwyf wedi cael y fraint o weithio ar nifer o brosiectau mawr a phroffil uchel, y prif un oedd Ysbyty Athrofaol y Faenor (GUH). Roeddwn wedi fy lleoli yn GUH am flwyddyn lle cefais brofiad amhrisiadwy a gallaf ddefnyddio’r profiadau hyn ar gyfer prosiectau yn y dyfodol. Roeddwn yn ymwneud â chomisiynu’r system larwm tân, a’r system galw nyrsys, profi bondio unbotensial y meysydd priodol, newid y cyfarpar switsio HV / LV a bod yn dyst i brofion generadur. Er mai comisiynu oedd fy mhrif ddyletswyddau’n bennaf, bûm hefyd yn cynorthwyo swyddogion ystadau yn GUH gyda’u cyfrifoldebau o ran rheoli a chynnal a chadw’r ysbyty. Mae rhain yn bwysig i’w deall gan y byddaf yn darparu cymorth technegol o’r fath yn fy rôl yn y dyfodol.

Treuliais amser hefyd gydag ymgynghoriaeth dylunio mecanyddol a thrydanol preifat i gael rhywfaint o brofiad dylunio buddiol nad yw ar gael yn SES PCGC. Fy rôl yno oedd cynorthwyo peirianwyr gyda’r gwaith dylunio trydanol ar gyfer prosiectau o sectorau amrywiol gan gynnwys gofal iechyd, addysg a phreswyl. Yn y pen draw, enillais ddigon o gymhwysedd i arwain y gwaith dylunio trydanol ar gyfer estyniad canolig ar ysgol a oedd yn gofyn am bŵer bach, cyfathrebu TG, larwm tân, teledu cylch cyfyng (CCTV) a gwasanaethau larwm tresmaswyr. Datblygodd hyn fy sgiliau trefnu, cyfathrebu a rhyngbersonol yn gyflym wrth gysylltu â’r cleient i sicrhau bod y dyluniad yn addas ar gyfer ei amgylchedd.

Ar ôl cwblhau fy mhumed flwyddyn a’ m blwyddyn olaf fel myfyriwr Rhwydwaith 75, mae fy nghymhwysedd wedi datblygu i lefel lle rwy’n teimlo’n hyderus i gwblhau profion ar y safle ar fy mhen fy hun ac ateb cwestiynau heriol gan contractwyr a chleientiaid. Mae hyn yn allweddol ar gyfer dechrau fy hyfforddiant dwys dwy flynedd fel peiriannydd safonau perfformiad cynorthwyol yn yr SES. I unrhyw fyfyrwr sy’n ystyried Rhwydwaith 75 fel llwybr ar gyfer addysg uwch, byddwn yn eu cynghori i fod mor drefnus â phosibl, gan y gall fod yn anodd cydbwysu’r gwaith brifysgol â phrofiad gwaith. Fodd bynnag, gyda threfn dda ac ymroddiad mae’r gwobrau yn werth chweil.”



Aran
Chaplin
Myfyriwr
Rhwydwaith 75
2018-2023

Astudio
Peirianeg
Drydanol ac
Electronig



Grando a Dysgu



Cymryd Cyfrifoldeb



Gweithio Gyda'n Gilydd



Arloesi

Gwerthoedd craidd PCGC